O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 1989 (Cy. 220)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 a Chefnffordd yr A470 (Cyffordd 32, Coryton, Caerdydd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed	*4 Awst 2011*
Yn dod i rym	*15 Awst 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain i Dde Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd") a Chefnffordd Caerdydd i Langurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid gwahardd a chyfyngu ar y traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd a'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Awst 2011 ac enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 a Chefnffordd yr A470 (Cyffordd 32, Coryton, Caerdydd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn neu ar gyfer y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period"*) yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 00:01 o'r gloch ar 15 Awst 2011 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darnau o'r draffordd" *("the lengths of the motorway")* yw'r darnau hynny o'r draffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn*;*

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd ar hyd y darnau o'r draffordd a'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar hyd y darnau hynny, ac eithrio cerbyd esempt.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd sydd â'i led yn 1.98 metr neu'n fwy ar hyd y darnau o'r draffordd a'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2, na pheri na chaniatáu i gerbyd o'r fath fynd ar hyd y darnau hynny.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd ar gyflymder uwch na 50 milltir yr awr ar hyd y darnau o'r draffordd a'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3, na pheri na chaniatáu i gerbyd fynd ar gyflymder o'r fath ar hyd y darnau hynny.

6 Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd ar gyflymder uwch na 30 milltir yr awr ar hyd y darnau o'r draffordd a'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4, na pheri na chaniatáu i gerbyd fynd ar gyflymder o'r fath ar hyd y darnau hynny.

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny yn weithredol.

8. Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 18 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 4 Awst 2011

G MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru.